# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2014 i'w hateb ar 25 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan fusnes ar gyfer gwasanaethau ariannol? OAQ(4)1578(FM)

2. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd gan fod yr adroddiad ar agweddau'r cyhoedd at ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn dangos yn glir gefnogaeth ar gyfer gwaharddiad? OAQ(4)1575(FM)

3. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae system cynllunio Cymru yn sicrhau atebion teg i etholwyr Cymru? OAQ(4)1583(FM) **TYNNWYD YNOL**

4. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol rhwydwaith bysiau Cymru? OAQ(4)1586(FM)

5. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi safonau i denantiaid yn y sector rhentu preifat? OAQ(4)1580(FM)

**6. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddewisiadau rhieni wrth iddynt ddewis ysgolion yn system addysg Cymru? OAQ(4)1577(FM)

**7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ficrosglodynnu anifeiliaid? OAQ(4)1576(FM)

**8. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach yn Aberafan? OAQ(4)1582(FM)

**9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau y mae Maes Awyr Caerdydd yn eu darparu? OAQ(4)1571(FM)

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i lygredd sŵn yn y Bil Cynllunio arfaethedig? OAQ(4)1572(FM)

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynglŷn â'r safonau iaith Gymraeg arfaethedig? OAQ(4)1584(FM)**W**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG? OAQ(4)1581(FM)

**13. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Beth yw goblygiadau Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)1579(FM)

**14. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r seilwaith twristiaeth yn ne Cymru? OAQ(4)1573(FM)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Islwyn yn elwa ar aelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1574(FM)